

Adfer dolydd blodau gwyllt Cymru



Cribell felen *Rhinanthus minor*

Yn y gorffennol roedd dolydd llawn blodau gwyllt yn nodweddiadol o ffermydd drwy Gymru. Erbyn hyn maent yn brin iawn, ond mae llawer o berchnogion tir a ffermwyr wedi dangos diddordeb mewn adfer yr amrywiaeth o flodau gwyllt yn eu dolydd.

Un ffordd o adfer yr amrywiaeth o flodau gwyllt yw casglu hadau neu ddefnyddio gwair yn llawn hadau a'i wasgaru ar y safle. Yn ogystal, gallai glaswelltiroedd sydd wedi cadw amrywiaeth dda o laswellt cynhenid helpu i ddatblygu amrywiaeth o flodau gwyllt wrth eu rheoli'n effeithiol. Cyn pennu pa ddull i'w ddefnyddio, bydd yn bwysig cael cyngor gan ecologydd megis un o swyddogion Tir Gofal.

Mae'r daflen hon yn bennaf yn canolbwyntio ar laswelltiroedd addas i'w rheoli fel dolydd gwair. Bydd angen adfer safleoedd eraill, fel manau gwlyb iawn, a chaeau bach anaddas i'w torri â pheiriannau, er mwyn eu pori ar lefelau cymwys – er enghraifft, digon i rwystro rhywogaethau sy'n creu twmpathau a chymell glaswellt dail main a blodau gwyllt.



NODYN YMGYNGHOROL

Adfer ein Dolydd

Rheoli glaswelltiroedd er symbylu blodau gwyllt

Y dolydd mwyaf addas fydd rhai'n cynnwys glaswelltau fel peisg coch, maeswellt cyffredin, melynwellt a rhonwellt ci cribog. Bydd y blodau gwyllt yn cynnwys pengaled benddu a hopys coeg, a llawer o'r dolydd traddodiadol yn cynnwys manau llaith gyda brwyn, erwain a phlanhigion eraill sy'n ffynnu ar dir tebyg. Bydd llefydd heb eu pori neu gaeau bach iawn yn cynnwys rhai o'r blodau gwyllt hyn yn addas i'w hadfer.

Ni fydd pob dól, yn arbennig rhai'n cynnwys llawer o efryn a meillionen wlanog yn addas i'w hadfer.

Dylai'r gwaith adfer ddechrau wrth atal defnydd o gwrtaith a chynaeafu'r gwair yn rheolaidd. Dylid trin chwyn gyda thrinaethau spot gyda thaenellwr pac er mwyn targedu planhigion unigol neu dwmpathau, oherwydd bydd chwistrelli chwynladdwyr yn lladd blodau gwyllt.

Beth sy'n bwysig ar gyfer lladd gwair yw cael yr offer a'r llafur iawn ar yr amser iawn, a rhywle i'w storio. Efallai bydd perchnogion ceffylau yn yr ardal yn fodlon talu pris da am wair llawn perlysiâu. Bydd rhaid cael mynediad i beiriannau a thir gweddol wastad a rhydd o gerrig. Yr un elfen bwysig arall yw anifeiliaid fel gwartheg, ceffylau neu ddefaid, i bori tyfiant diwedd yr haf a dechrau'r hydref, ar ôl lladd a gwaredu'r gwair.

Bydd torri gwair ar ôl 7 Gorffennaf yn galluogi adar i orffen eu nythu a rhai blodau i ryddhau hadau, ond bydd y dyddiadau'n amrywio yn dibynnu ar y tymor, uchder a thyfiant y gwair.

Bydd pori ar ôl torri gwair yn hanfodol, er mwyn rhwystro glaswellt twmpathog a symbylu blodau gwyllt. Pori ysgafn gan wartheg fyddai orau, ond gallai rhoi defaid ar y tir fod yr un mor effeithiol. Bydd dolydd yn elwa o gyfnod heb bori rhwng Tachwedd a Chwefror. Bydd gor-bori a phori yn ystod cynnodau gwlyb, yn gallu difrodi'r gwair ble bydd ysgall, danadl a dail tafol yn ffynnu. Yn amodol ar gyflwr y ddaear a thyfiant y gwair, gellid aildechrau pori am gyfnod byr ar ddechrau'r gwanwyn, cyn 'cau' y ddôl rhwng Ebrill a lladd gwair ym mis Gorffennaf.



Pengaled benddu, *Centaurea nigra*

Hadau blodau gwyllt

Bydd cyflwyno blodau gwyllt wrth ddefnyddio gwair yn llawn hadau neu hadau glân yn cyflumu'r broses o adfer dolydd.

Dylech asesu unrhyw safle posib yn ofalus ymlaen llaw oherwydd ni fydd pob man yn addas ar gyfer blodau gwyllt. Dylai gynnwys cyfran uchel o laswellt dail main, lefel isel o nitrogen a dim llawer o chwyn. Ni fydd dolydd yn cynnwys llawer o geirchwellt, byswellt troed, grutfaeu Efrog, meillionen wlanog neu rygwellt parhaol yn addas.

Cyn cyflwyno hadau, ar ffurf gwair neu hadau glân, bydd angen paratoi wrth dorri neu bori'r gwair ac yna taelo twmpathau chwyn gyda disg, oged neu stripiau lladd chwyn ar y maes cyn hadu. Gallwch drin hyd at 50% o'r darn tir.

Yn ogystal, gallwch drin hen dir arad a manau llwm, fel ymylon heolydd newydd, gyda chymysgedd o hadau i greu



Gwelir pili-pala fel brith y gors ar ddolydd cyfoethog yn llawn o'u prif fwyd, Clafrllys Gwreidd-dan

Brith y gors, dodwy wyau



Bydd creu tyfiant tynn erbyn dechrau hydref yn gallu helpu i ddatblygu ffyngau fel capiau cwyr

Cap cwyr



Pori addas yn hanfodol i gynnal ac adfer dolydd blodau gwyllt



Torri a byrnu gwair glas



Gwasgaru gwair glas gyda lledaenydd gwellt



Cynaeafu brwsh yn ffordd dda o gasglu hadau o ddolydd blodau gwyllt.

dolydd blodau gwyllt. Rhaid eu paratoi'n drylwyr yn ystod y gwanwyn a'r haf er mwyn gwaredu chwyn o'r banc hadau.

Cysylltwch â Flora locale, ymddiriedolaeth bywyd gwyllt neu swyddog Tir Gofal am gyflenwyr hadau, neu ddôl ble gallwch gasglu hadau neu wair.

Gallwch gasglu hadau gyda chynaeafwr brwsh. Ar ôl sychu a glanhau'r hadau gallwch eu gwasgaru (nid drilio) ar y maes gyda chwistrellwr gwrtaith. Yr amser delfrydol yw diwedd haf (yn arbennig ar safleoedd uchel) neu ddechrau hydref.

Ar ôl gwasgaru hadau neu wair, gallwch roi gwartheg ar y dolydd i bori. Byddant yn bwyta unrhyw wair gwastraff ac yn troedio'r hadau i mewn i'r pridd. Ar safleoedd llwm rhaid rhoio'r hadau ar y gwely hadau gyda rhoiwr cylch.

Gwair gwyrd neu laswellt porfwyd

Gallwch ddefnyddio'r dull yma pan fydd safle'n agos (llai na dwy filltir) at ddôl llawn perlysiâu. Rhaid paratoi'r safle newydd cyn lladd gwair (dechrau Gorffennaf ymlaen) neu bori'r glaswellt. Ar

ôl torri'r gwair ar y safle fydd yn darparu'r hadau, casglwch y gwair yn gyflym (o fewn diwrnod o'i dorri) gyda chynaeafwr porfwyd. Bydd rhaid datod byrnau'n gyflym dim mwy nag awr ar ôl eu creu; neu eu carpio a gwasgaru ar y safle newydd gyda lledaenydd gwellt.

Gallwch hefyd ddefnyddio byrnau gwair sych yn llawn hadau, ond bydd llwyddiant yn dibynnu ar gynnwys y byrnau.

Mae Cefnogaeth i adfer dolydd

Erbyn hyn mae llawer o berchnogion tir a grwpiau cadwraeth, sy'n poeni am ddyfodol ein dolydd blodau gwyllt, yn rhannu sgiliau ac adnoddau er mwyn adfer ein meysydd traddodiadol. Sefydlwyd cynlluniau eisoes yn sir Fynwy, ardal y Bannau a Gwent.

Y flaenoriaeth ar y cychwyn oedd osgoi colli dolydd blodau gwyllt, ond bellach nid yw hynny'n ddigon. Yn y dyfodol bydd rhaid adfer yr elfen unigryw hon o'n treftadaeth amaeth a naturiol.

Gwybodaeth bellach

Mae Flora locale yn cynhyrchu cofrestr o safleoedd darparu hadau, yn datblygu safleoedd arddangos drwy Gymru ac wedi cyhoeddi cyngor ymarferol ar sut i adfer dolydd blodau gwyllt. Manylion pellach, yn cynnwys projectau yn eich ardal, yn www.floralocale.org a www.dolyddbyw.org.uk

Tir Gofal

Y cynllun amaeth-amgylcheddol Cymreig, sy'n darparu cymorth ariannol i adfer dolydd, gyda thaliadau uwch am ddefnyddio gwartheg Duon Cymreig. Manylion gan eich swyddog Tir Gofal lleol.



Cynhyrchwyd gyda chymorth Cynghor Cefn Gwlad Cymru



Flora locale, Denford Manor, Hungerford, Berkshire RG17 0UN
ffôn 01488 680 458 e-bost info@floralocale.org gwefan www.floralocale.org

Flora locale Elusen genedlaethol sy'n hyrwyddo defnydd doeth o blanhigion gwyllt er cynnal amrywiaeth a chynlluniau adfer planhigion gwyllt

Elusen gofrestredig rhif 1071212, cwmni cofrestredig rhif 3539595.
© Flora locale 2007. Gellir copio'r nodyn hwn ond nid oes hawl ei gyhoeddi neu ddefnyddio er budd ariannol heb ganiatâd ymlaen llaw gan Flora locale.